



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 17-06-11, Llyfni, Caernarfon

Yn bresennol: Cyngor Gwynedd:

Y Cynghorydd W. G. Roberts, Cadeirydd
Y Cynghorydd T. Edwards
Y Cynghorydd O. P. Huws
Y Cynghorydd A. Pierce
Y Cynghorydd J. W. Williams
Y Cynghorydd Owain Williams

Cyngor Sir Ynys Môn:

Y Cynghorydd W. J. Chorlton – Is-gadeirydd
Y Cynghorydd L. Davies
Y Cynghorydd K. P. Hughes
Y Cynghorydd C. McGregor
Y Cynghorydd E. Roberts

Swyddogion:

Gareth Jones, Rheolwr Gwasanaeth Amgylcheddol
Nia Haf Davies, Rheolwr yr Uned Polisi Cynllunio ar y
Cyd (UPCC)
Linda Lee, Uwch Swyddog Cynllunio, UPCC

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd S. Churchman, Cyngor Gwynedd
Y Cynghorydd H. E. Jones, Cyngor Sir Ynys Môn

1. YMDDIHEURIADAU

Nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim.

3. MATERION BRYD

Dim.

4. RHAGLEN WAITH

Cafwyd adroddiad llafar gan NHD yn rhoi amlinelliad o amserlen a rhaglen waith y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd).

- Cytundeb Cyflawni – wedi bod allan am ymgynghoriad cyhoeddus ac mae angen i'r ddau awdurdod ei gymeradwyo cyn ei anfon i Lywodraeth Cymru (LIC) am sylwadau.
- Siart Llif - dangoswyd siart llif a oedd yn amlygu'r holl gamau gofynnol er cyrraedd cam yr hoff strategaeth.
- Papur Opsiynau - bydd y papur fydd yn adnabod yr opsiynau strategol posib ar gyfer lefelau twf cyffredinol a dosbarthiad gofodol o ddatblygiadau newydd ar gyfer ardal y CDLI ar y Cyd yn cael ei gyflwyno i'r panel am sylwadau ym mis Hydref. Bydd y papur wedyn yn ffurfio rhan o'r sylfaen ar gyfer ymgynghori gyda chyrrff ymgynghorol penodol a chyffredinol, yn ogystal ag Aelodau Lleol a swyddogion.
- Gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn cynnwys astudiaeth tir cyflogaeth ac astudiaeth i sefydlu anghenion tai. Bydd y UPCC yn adrodd ar gynnydd yr astudiaethau hyn.

Sylwadau:

- Pa mor hir fyddai LIC ei angen i wneud sylwadau ar y Cytundeb Cyflawni?
 - Mae LIC wedi gweld copi o'r CC drafft ac nid oedd ganddo unrhyw bryderon mawr.
- Astudiaeth Tai – sut fyddai Wylfa B yn effeithio ar y CDLI ar y Cyd?
 - Mae Wylfa B yn fater allweddol ar gyfer y CDLI ar y Cyd. Mae astudiaethau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd i asesu goblygiadau Wylfa B. Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn adroddiad sefyllfa, sef 'Ddatganiad Sefyllfa Llety i Weithwyr i Adeiladu Wylfa B' sy'n gosod allan hoff opsiwn y Cyngor yn nhermau anghenion llety i'r gweithwyr. Byddai'r cymysg gweithredol o'r llety fel y ganlyn:
 1. 1/3 o weithwyr yn aros mewn llety newydd pwrpasol (canran isel ar safle i gyrraedd anghenion gweithredol ond bydd y mwyafrif wedi ei leoli oddi ar safle)
 2. 1/3 mewn llety rhentu preifat (cymysg o lety newydd a rhai sy'n bodoli)
 3. 1/3 mewn llety gwyliau (cymysg o lety newydd a rhai sy'n bodoli)
- Astudiaeth Tai – sut fyddai'r UPCC yn ymgynghori ar hyn?
 - Byddai angen ymgynghori'n fewnol ag adrannau amrywiol yn y ddau awdurdod a chyda'n partneriaid.
 - Mae amserlen y CDLI ar y Cyd yn dynn iawn felly byddai angen i bob ymgynghoriad fod â ffocws pendant.
- Papur opsiynau – mae niferoedd tai yn fater o bwys ond roedd dosbarthiad y tai yn hanfodol. Gan fod angen tai i weithwyr, a oes risg y byddai gormod o dai ac y gallai hyn gynyddu nifer y mewnfudwyr i'r ardal?
 - Mae Datganiad Sefyllfa Llety i Weithwyr i Adeiladu Wylfa CSYM yn amlygu sut gall anghenion dros dro'r gweithwyr adeiladu gael eu bodloni gan lety amgen a fyddai'n lleihau'r risg o gor-cyflenwad o dai. Hefyd bydd rhaid ystyried a monitro'r angen i hwyluso'r ddarpariaeth o dai ar gyfer gweithwyr gweithredol parhaol a fu eu hangen yn ystod camau olaf o'r cynllun. Bydd rhagamcanion rhifiadol yn rhoi man cychwyn ar gyfer hyn. Bydd angen

pwyso hyn yn erbyn gweledigaeth y cynllun, materion capasiti o fewn yr ardal leol gan gynnwys materion tai, argaeledd tir cyflogaeth, y potensial am ail ddatblygu, anghenion adfywio, isadeiledd a chyfyngiadau amgylcheddol. Bydd datblygu sail tystiolaeth gadarn yn hanfodol.

5 MATERION STRATEGOL, Y WELEDIGAETH A'R AMCANION

Cyflwynodd NHD adroddiad yn cyflwyno'r weledigaeth a'r amcanion drafft ar gyfer y CDLI ar y Cyd. Tynnodd yr adroddiad sylw at yr angen i ddilyn llwybr clir o'r Materion i'r Weledigaeth, ac o'r Amcanion i'r Opsiynau Strategol i'r Strategaeth a Ffafir, gan ystyried:

- Y prif faterion gofodol a chynaliadwy sy'n wynebu ardal y CDLI ar y Cyd.
- Gweledigaeth y gymuned ar gyfer dyfodol gofodol ardal y CDLI ar y Cyd.
- Amcanion cynllunio defnydd tir i gynorthwyo i gyflawni'r weledigaeth hon.
- Opsiynau strategol i gyflawni'r amcanion hyn - graddfa a dosbarthiad gofodol datblygiadau newydd.

Sylwadau:

- Dylid defnyddio pwyntiau bwled yn y Datganiad o Weledigaeth, yn hytrach na llythrennau. Roedd defnyddio 'a,b,c, d' yn rhoi'r argraff bod y pwyntiau wedi'u rhestru yn ôl eu pwysigrwydd.
- Mae'n bwysig bod y weledigaeth yn adlewyrchu cymeriad unigryw'r ddau awdurdod, felly, dylid atgyfnerthu cyfeiriad tuag at yr iaith Gymraeg yn y weledigaeth a'r amcanion (pwynt bwled 5).
- Pwysig tynnu sylw at y mater carbon isel yn y weledigaeth os oes modd, gan fod gan y ddau awdurdod strategaethau i leihau allyriadau carbon - Ynys Ynni a Gwynedd Werdd (pwynt bwled 10 yn yr amcanion).
- Mae'n bwysig cadw diwydiannau bara menyn yr ardal (amaethyddiaeth a thwristiaeth), ond roedd yr un mor bwysig i ddenu buddsoddiad newydd i'r ardal.
- Paragraff 10 - pwynt bwled gyntaf - dylai'r geiriau "anghenion pawb" gael eu newid fel ei fod yn darllen "anghenion cymunedau lleol".
- Paragraff 13 - cryfhau pwysigrwydd yr iaith Gymraeg.
- Dylai pwynt bwled 8 yn y rhestr amcanion (paragraff 19) adlewyrchu Cynllun Cymunedol y ddau awdurdod.
- Sut fyddai'r UPCC yn ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod y cam hwn yn y broses? A fyddai cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal?
 - Ar y cam hwn, ni fydd y UPCC yn cynnal unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus/sioeau teithiol. Hysbysir unrhyw ymgynghorwyr penodol a chyffredinol a phobl sydd wedi cofrestru eu diddordeb ar gronfa ddata y CDLI ar y Cyd am unrhyw ddogfennau fydd ar gael. Byddai'r holl ddogfennau ar gael ar y wefan a byddai modd cael gweld copiâu papur yn swyddfeydd y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd cyhoeddus a byddai fersiwn electronig ar gael i'w lawr lwytho o'r wefan. Yn unol â'r Cytundeb Cyflawni drafft bydd y UPCC yn ymgynghori gyda'r Grŵp Hapddalwyr Allweddol, Panel Dinesig, Cyngorwyr a Phartneriaethau sy'n bodoli e.e. Partneriaethau Tai, PEG.

6 COFRESTR SAFLEOEDD ARFAETHEDIG

Cyflwynodd LL adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o'r broses Safleoedd Arfaethedig a'r dull o asesu safleoedd a gyflwynwyd i'w hystyried er mwyn eu cynnwys yn y CDLI ar y Cyd.

Derbyniodd y panel yr adroddiad.

7 UNRHYW FATER ARALL

Dim.